# Cais i dalu Lwfans Tai Lleol (LHA) i'ch Landlord

**Beth yw pwrpas y ffurflen hon?**

- Mae Lwfans Tai Lleol (byddwn yn cyfeirio ato yn gryno isod fel LHA, sef *Local Housing Allowance* yn Saesneg) fel rheol yn cael ei dalu i'r tenant.
- Ond mae rhai amgylchiadau arbennig pryd y gallwn dalu LHA yn uniongyrchol i'r landlord.
- Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y ffurflen hon o gymorth inni benderfynu a ddylem dalu'r LHA yn uniongyrchol i'r landlord yn eich achos chi.
- Efallai na fydd yn rhaid ichi ateb bob cwestiwn ar y ffurflen, ond ceisiwch roi cymaint o wybodaeth a thystiolaeth â phosibl.

**Pwy ddylai lenwi'r ffurflen hon?**

Lle mae hynny'n bosibl, dylai'r tenant lenwi'r ffurflen, ond gall y bobl a ganlyn hefyd wneud hynny:

- Teulu neu ffrindiau
- Y prif ofalwr
- Gweithiwr cefnogi
- Asiantaeth gynghori neu les
- Y landlord neu asiant gosod tai
- Rhywun sy'n gweithio i wasanaeth arall yn y Cyngor

Rhaid i'r tenant lofnodi'r ffurflen bob amser a llawn sylweddoli y gall hyn olygu y bydd LHA yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r landlord.

Os nad yw'r tenant wedi llofnodi'r ffurflen, dylech esbonio pam yn y datganiad ar ddiwedd y ffurflen.

**Beth y dylid ei anfon gyda'r ffurflen hon?**

Tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi'r wybodaeth sydd yn y ffurflen. Gall ddod o amrywiol ffynonellau (edrychwch ar y nodiadau canllaw) gan ddibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, er enghraifft:

- Grwpiau lles
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Meddyg Teulu
- Ysbyty
- Llysoedd
- Gweithwyr gofal
- Swyddogion Prawf
- Teulu a ffrindiau'r tenant
- Y landlord neu'r asiant gosod tai

Cofiwch, mae'n bosibl y byddwn yn fodlon derbyn tystiolaeth o ffynonellau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr uchod.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Enw'r tenant | |
| | Rhif Budd-dal Tai | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. | Cyfeiriad y tenant | |
| | | |
| | | |
| | Rhif ffôn | |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y sawl sy'n llenwi'r ffurflen - os nad yw'n cael ei llenwi gan y tenant a nodir yn 1 a 2 uchod. | |
| | | |
| | | |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Os nad yw'r ffurflen yn cael ei llenwi gan y tenant, dywedwch beth yw eich perthynas chi â'r tenant a'r rheswm pam rydych yn llenwi'r ffurflen ar ei ran/ei rhan. | Perthynas : |
| | | Y rheswm pam rydych yn llenwi'r ffurflen ar ei ran/ei rhan: |

.

**Manylion am amgylchiadau'r tenant**

| | | |
|---|---|---|
| 5 | Soniwch wrthym am unrhyw anawsterau dysgu sydd gennych a allai ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Soniwch wrthym am unrhyw gyflyrau meddygol neu anableddau sydd gennych a allai ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Soniwch wrthym am unrhyw broblemau iechyd meddwl sydd gennych a allai ei gwneud yn anodd i chi dalu eich rhent. | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | A ydych yn gaeth i gyffuriau, i alcohol neu i gamblo?<br>Os ydych, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | A ydych wedi cael unrhyw anhawster wrth reoli eich materion eich hun oherwydd bod angen cymorth arnoch i ddeall Cymraeg neu Saesneg?<br>Os ydych, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 10 | A ydych wedi profi newid yn ddiweddar yn eich bywyd personol sy'n golygu nad ydych am y tro yn gallu ymdrin â'ch materion ariannol?<br>Os ydych, rhowch fanylion. | |

| | | |
|---|---|---|
| 11 | Ydi'ch landlord wedi cytuno i osod y rhent ar lefel fforddiadwy er mwyn i chi allu sicrhau/cadw'r denantiaeth? (Fforddiadwy yn golygu 'run fath neu lai â'ch hawlfraint Lwfans Tai Lleol) – ***Darparwch lythyr gan eich landlord i gadarnhau hyn..*** | |

| | |
|---|---|
| 12 | A oes gennych ôl-ddyled rhent? Oes ☐ Nac oes ☐ Os oes, rhowch fanylion:<br><br>Faint yw eich ôl-ddyled rhent? £..............................<br><br>Mae'n ymwneud â'r cyfnod: o......................... hyd .................................<br><br>A yw eich landlord wedi cymryd unrhyw gamau i geisio casglu tâl oddi wrthych i glirio'r ddyled h.y. camau cyfreithiol, rhybudd ceisio meddiant, rhybudd ichi adael, anfon llythyr atoch, sefydlu cynllun talu neu rywbeth arall. Cofiwch roi manylion a chynnwys tystiolaeth o unrhyw gamau a gymerwyd.<br><br>________________________________________<br><br>________________________________________ |

| | | |
|---|---|---|
| 13 | A ydych wedi cael problemau o'r blaen wrth dalu eich rhent? Os ydych, rhowch fanylion. | |

| | |
|---|---|
| 14 | A oes arian yn cael ei dynnu o'ch Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith er mwyn talu ôl-ddyled rhent?<br><br>Oes ☐ Nac oes ☐ Os oes, cofiwch gynnwys tystiolaeth. |

| | |
|---|---|
| 15 | Oes gennych orddrafft, a fyddai'n golygu na allech ddefnyddio unrhyw arian a fyddai'n cael ei dalu i'r cyfrif gyda gorddrafft i dalu eich rhent ?<br><br>Oes ☐ Nac Oes ☐ Os oes, rhowch dystiolaeth, e.e. datganiadau banc diweddar |

| | | |
|---|---|---|
| 16 | A oes gennych ddyledion niferus ac a hoffech gymorth i geisio mynd i'r afael â nhw? Os oes, cofiwch roi manylion a chynnwys tystiolaeth. Gallwn eich cyfeirio at asiantaeth gynghori. | |

| | | |
|---|---|---|
| 17 | A ydych ar hyn o bryd yn cael unrhyw gefnogaeth gan asiantaeth a all roi cymorth ichi gael trefn ar eich taliadau rhent a'ch materion ariannol?<br>Os ydych, rhowch fanylion. | |
| 18 | A oes unrhyw un arall a all roi cymorth ichi reoli eich materion ariannol? Os oes, rhowch fanylion. | |
| 19 | Am faint ydych chi'n meddwl y bydd angen gwneud taliadau yn uniongyrchol i'ch landlord?<br><br>13 wythnos ☐ 26 wythnos ☐ 52 wythnos neu fwy ☐ | |

20 **Datganiad y tenant:**

Rhowch eich llofnod a'r dyddiad isod. Os oes gennych bartner, dylai ef/hi hefyd lofnodi.

- Mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir
- Cytunaf ichi dalu fy LHA yn uniongyrchol i fy landlord, hyd at swm fy rhent cytundebol
- Byddaf yn cysylltu â'r adran Budd-dal Tai os byddaf yn teimlo bod modd imi gymryd taliadau LHA yn uniongyrchol fy hun
- Yr wyf wedi darllen a deall y datganiad

Eich llofnod chi.......................................... Llofnod eich Partner.............................................

Dyddiad ..................................... Rhif ffôn : ……………………………..

21 **Datganiad ar gyfer y sawl sy'n llenwi'r ffurflen (os nad yw'n cael ei llenwi gan y tenant ):**

- Mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn gywir
- Credaf mai'r peth gorau i'r tenant yw talu LHA, hyd at swm y rhent cytundebol, yn uniongyrchol i'r landlord
- Yr wyf wedi darllen a deall y datganiad

Enw .............................................. Llofnod ……………………………………………

Dyddiad ..................................... Rhif ffôn : ……………………………..

**Gwybodaeth bellach**

Os bydd gennych unrhyw ymholiad neu os bydd angen cymorth arnoch i ddeall y ffurflen, cofiwch gysylltu â ni:

**Ffôn** 01286 682689

**Ebost** LwfansTaiLleol@gwynedd.llyw.cymru

Galwch draw i'n gweld yn un o'n **Siopau Gwynedd** yng Nghaernarfon, Dolgellau neu Bwllheli.

At ddefnydd swyddfa:

Penderfyniad ............................................... Dyddiad adolygu…………...……….

Enw'r swyddog............................................ Dyddiad ..........................